Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Arwel Williams**

Penysarn

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12 Chwefror 2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Arwel Williams wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 10 o blant hyd at 12 oed. Mae'n gweithio ochr yn ochr â'i wraig, sydd hefyd yn warchodwr plant cofrestredig, ac maent yn gweithredu o'u cartref teuluol ym mhentref Penysarn, Amlwch. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.30pm a 5.30pm. Mae Arwel yn siarad Cymraeg a Saesneg â'r plant wrth ofalu amdanynt. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg gan nad yw'r holl waith papur ar gael yn y ddwy iaith.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | METADATA_WEB |
| Gofal a Datblygiad | METADATA_CAD |
| Yr Amgylchedd | METADATA_ENV |
| Arwain a Rheoli | METADATA_LAM |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo; maent yn amlwg yn adnabod ei gilydd a'r gwarchodwr plant yn dda. Mae'r plant yn mwynhau chwarae gemau a chymryd rhan mewn gweithgareddau, sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo eu datblygiad. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn diwallu anghenion y plant yn dda. Mae'n groesawgar ac yn gyfforddus, ac mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn ennyn diddordeb y plant. Mae'r gwarchodwr plant a'i wraig yn cydweithio'n agos â'i gilydd i redeg y gwasanaeth ac, er bod ei wraig yn cymryd rhan flaenllaw wrth sicrhau bod y gwaith papur angenrheidiol ar gael ac yn cael ei gyflawni'n llawn, roedd Arwel yn dangos ei fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoleiddio. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n agos â rhieni, a chafwyd adborth cadarnhaol ganddynt.

### 2. Gwelliannau

- mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig gyfredol;
- mae wedi cyflwyno bwydlen dreigl pedair wythnos;
- ymestyn y tŷ haf i fod yn lle golau ac eang i'r plant chwarae ynddo;
- adolygu a diweddaru pob polisi a gweithdrefn yn flynyddol;

- cwblhau asesiadau risg a rhestr wirio diogelwch bob dydd;
- sicrhau nad oes unrhyw beryglon ar y safle;
- cofnodi damweiniau a digwyddiadau, gyda llofnod gan y rhieni i ddangos eu bod wedi cael gwybod am y wybodaeth;
- prynu nifer fawr o adnoddau newydd sy'n cynnig llawer o brofiadau chwarae amrywiol i'r plant;
- cwblhau adolygiad o ansawdd gofal sy'n nodi barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac yn amlinellu pa welliannau a gaiff eu cyflawni o ganlyniad i hynny;
- diweddaru'r datganiad o ddiben, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ddydd i ddydd.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu, a'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli. Dylai'r ddau warchodwr plant a'r cynorthwyydd gwarchod plant a gyflogir ddiweddaru eu hyfforddiant diogelu a sicrhau bod gan yr unigolyn wrth gefn mewn argyfwng dystysgrif DBS ddilys.

## 1. Llesiant

METADATA_WEB

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn hyderus yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn siarad â'r gwarchodwr plant a'r rhai o'i gwmpas yn ddidrafferth ac yn dewis sut maent am dreulio eu hamser. Maent yn mwynhau cyfleoedd sy'n eu cefnogi a'u helpu i wneud cynnydd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn amlwg yn adnabod ei gilydd yn dda ac, o ganlyniad, maent yn siarad yn hyderus â'r rhai o'u cwmpas. Maent yn gofyn am yr eitemau yr hoffent chwarae â nhw, er enghraifft, gwnaethant ddweud wrth y gwarchodwr plant pan nad oeddent am gymryd rhan mewn gweithgaredd strwythuredig bellach, a'u bod am chwarae yn y gornel gartref. Gwnaethant hefyd ddweud wrth y gwarchodwr plant eu bod yn meddwl ei bod yn rhy oer iddynt fynd i chwarae yn yr awyr agored, ond, gydag ychydig o anogaeth, gwnaethant newid eu meddyliau ymhen fawr o dro, ac roeddent wrth eu bodd yn rhedeg ac yn chwarae yn yr awyr iach. Roedd y plant yn rhannu straeon am yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud gartref ac roedd pawb yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda.

Dangosodd y plant y siapiau roeddent wedi'u creu gyda'r clai i'r gwarchodwr plant, ac roedd un plentyn yn dynwared y gwarchodwr plant yn defnyddio'r camera i dynnu lluniau. Mae bron pob un ohonynt yn hyderus ac mae'r gwarchodwr plant yn gwrando arnynt, ac yn ymateb i'r hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, clywsom y plant yn siarad â'i gilydd dros ginio am yr hyn y maent yn hoffi ei fwyta a'r hyn nad ydynt yn hoffi ei fwyta.
Darperir ar gyfer dewisiadau'r plant drwy gynllunio'n ofalus. Ar y diwrnod, roedd y plant yn mwynhau pryd ar ffurf pecyn cinio, gan olygu bod pob plentyn yn barod i fwyta'r un math o fwyd.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel, ac roeddent yn mynd ati i gyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni yn hyderus. Pan aethant allan i chwarae, roedd pob un ohonynt yn mwynhau chwarae pêl-droed; roeddent yn bloeddio ac yn llongyfarch ei gilydd pan wnaethant lwyddo i gicio'r bêl i gefn y rhwyd. Roedd y plant hŷn yn gofalu am blant iau; roeddent yn eu tywys i ardal o'r ardd lle y gallent chwarae â theganau a oedd yn addas ar gyfer eu hoedran. Mae'r plant yn gofalu am yr adnoddau sydd ar gael iddynt; gwelsom y plant yn rhoi'r eitemau roeddent wedi bod yn chwarae â nhw i gadw cyn dewis chwarae ag unrhyw beth arall.

Mae'r plant yn gwrtais ac yn ofalgar; maent yn siarad â'i gilydd yn garedig. Roeddent wrth eu bodd yn chwarae yn y gornel gartref, yn helpu ei gilydd i roi eitemau yn y peiriant golchi dillad, gan sgwrsio â'i gilydd wrth chwarae. Roedd y gwarchodwr yn eistedd gerllaw, ac roedd y plant yn ymuno ag ef o bryd i'w gilydd, ac yn eistedd gyda'i gilydd i gwblhau gweithgaredd wedi'i gynllunio er mwyn eu helpu i ymgyfarwyddo â theimladau gwahanol a'r hyn y maent yn ei olygu. Roedd y gweithgareddau a'r cyfleoedd chwarae ar gyfer y plant yn briodol i'w hoedran ac yn diwallu eu hanghenion. Roedd y ffaith eu bod yn wên o glust i

glust yn dangos eu bod yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yng ngofal y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi o'i amser i ddod i adnabod y plant ac, o ganlyniad, mae'n eu cefnogi'n dda, gan alluogi'r plant i gyflawni tasgau priodol drostynt eu hunain a'u hannog i roi cynnig ar bethau eraill, megis gwisgo eu cotiau a chwblhau jig-so.

## 2. Gofal a Datblygiad METADATA_CAD

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg y gwasanaeth yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff iechyd a llesiant y plant eu hybu, ac mae'r gwasanaeth yn hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae gweithgareddau'n cael eu trefnu'n dda, ac maent yn helpu'r plant i wneud cynnydd ac i ddysgu.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ac mae'r rhain ar gael yn y gwasanaeth. Mae'r rhieni'n cael gwybod am unrhyw wybodaeth bwysig sy'n ymwneud â'u plant, er enghraifft caiff ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu cwblhau'n llawn a'u llofnodi gan y rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel a gwelsom ddogfennaeth ysgrifenedig a oedd yn adlewyrchu hyn. Roedd gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd wedi diweddaru ei hyfforddiant diogelu, ond roedd yn gyfarwydd â'r broses i'w dilyn os oedd ganddo bryderon am ddiogelwch plentyn.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae gwraig y gwarchodwr plant wedi llunio bwydlen dreigl tair wythnos, ar ôl ymgynghori â’r rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â'i wraig i baratoi a darparu prydau bwyd, ac mae dŵr ar gael i'r plant i'w yfed pryd bynnag yr hoffent. Mae'r plant yn treulio amser yn chwarae yn yr awyr iach a gwelsom ffotograffau ohonynt yn mwynhau cael picnic yn yr ardd yn ystod yr haf. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi arferion hylendid effeithiol ar waith drwy olchi dwylo, darparu tywelion llaw unigol a sychu byrddau'n rheolaidd. Dilynwyd y broses a argymhellir wrth newid cewynnau, gan olygu bod y risg o ledaenu heintiau'n cael ei lleihau. Caiff cofrestr ddyddiol ei chadw i gofnodi pwy sy'n bresennol bob dydd a phwy fydd yn mynychu bob dydd yn ystod yr wythnosau sydd i ddod. Mae hyn yn galluogi'r gwarchodwr plant i gynllunio ar gyfer plant unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a sefydlogrwydd i'r plant, ac mae'r plant yn gwybod beth yw strwythur y dydd. Mae gan y gwarchodwr plant agwedd ddigynnwrf a magwrus; mae'n rhoi o'i amser i siarad â'r plant ac yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrtho. Mae'r rhyngweithio'n gadarnhaol a gofalgar, gyda'r gwarchodwr plant ond yn gorfod atgoffa'r plant am rai o'r rheolau; megis pan oedd plentyn am chwarae ag eitem roedd rhywun arall yn ei defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno tystysgrifau gwobrwyo; rhoddir y rhain i'r plant er mwyn dathlu eu hymddygiad cadarnhaol a'u gwaith caled.

Gwraig y gwarchodwr plant sy'n trefnu'r gweithgareddau; fodd bynnag, y gwarchodwr plant sy'n hwyluso'r gweithgareddau hynny gyda'r plant. Dewisir y thema ar gyfer y mis a chaiff cynllun gweithgaredd manylach ar gyfer yr wythnos ei arddangos ar y wal. Mae'r plant yn dysgu drwy gymysgedd o dasgau a arweinir gan oedolion a chwarae rhydd. Roedd y thema ddewisol yn amlwg yn ystod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau y cymerodd y plant ran

ynddynt. Roedd y plant wedi bod yn dysgu am fwyta’n iach ac roeddent yn mwynhau paratoi pryd iach ar gyfer y gwarchodwr plant yn y ‘caffi’, gyda bwydlenni ac adnoddau i'w helpu i baratoi prydau bwyd i'w gilydd. Caiff cofnod manwl o'r hyn y mae'r plant wedi'i gyflawni yn ystod y dydd ei gofnodi yn eu dyddiaduron dyddiol. Roedd y waliau wedi’u haddurno’n lliwgar â gwaith celf y plant, a dangosodd plentyn gerdyn Sant Ffolant yr oedd wedi'i greu i ni yn falch, gan ddweud ei fod yn mynd i’w roi i’w fam pan gyrhaeddodd adref.

## 3. Yr Amgylchedd METADATA_ENV

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r ardaloedd a ddefnyddir yn olau, yn groesawgar ac yn gyfforddus, ac roedd amrywiaeth o adnoddau a theganau gwahanol ar gael i'r plant y maent yn mwynhau chwarae â nhw.

### Ein canfyddiadau

Mae'r tŷ yn ddiogel ac mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau rhestr wirio ddyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Caiff prif giât y tŷ ei chau ar ôl i'r plentyn olaf gyrraedd yn y bore, gan aros ar gau nes i'r plant gael eu casglu ar ddiwedd y dydd. Mae giât arall wrth ochr y tŷ, sy'n arwain at yr ardd gefn, lle mae'r plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn chwarae yn yr awyr agored. Mae ymarfer tân yn cael ei gwblhau unwaith y mis, sy'n golygu bod y plant yn ymarfer sut y byddent yn gadael y tŷ mewn argyfwng. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymryd risgiau cadarnhaol, megis defnyddio'r ffrâm ddringo a'r ardal chwarae meddal.

Mae arferion glanhau da ar waith, ac mae hyn yn lleihau'r risg i iechyd a diogelwch plant. Mae'r cyfarpar chwarae meddal yn cael ei lanhau ar ddiwedd pob wythnos, ac mae teganau ychwanegol yn cael eu glanhau ar adegau eraill a chedwir cofnod o bryd y mae teganau wedi cael eu glanhau.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi ychwanegu ystafelloedd chwarae ychwanegol i'r plant eu defnyddio. Mae tŷ haf yn yr ardd wedi cael ei addasu i fod yn ardal chwarae ychwanegol, gyda'r prif dŷ hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau sy'n dibynnu ar yr hyn y mae'r plant yn dewis ei wneud. Yn ystod yr haf, gall y plant symud yn ddirwystr rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored, ac mae hyn yn ymestyn y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r ardal chwarae yn llachar ac yn groesawgar, ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu a bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi ehangu'r amrywiaeth o deganau y gall y plant ddewis chwarae â nhw. Mae'r teganau'n addas ar gyfer ystod eang o wahanol oedrannau a chânt eu storio'n ddiogel, sy'n golygu nad yw'r plant iau yn gallu cael gafael ar adnoddau nad ydynt yn addas ar eu cyfer. Mae'r teganau sydd ar gael yn annog y plant i fod yn frwdfrydig yn eu chwarae.

## 4. Arwain a Rheoli  METADATA_LAM

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n awyddus i'r plant gael profiad o ofal lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnynt. Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar farn y rhai syn defnyddio'r gwasanaeth ac yn rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn llwyddo i rannu ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth, yn yr ystyr ei fod yn awyddus i'r plant gael profiad o ofal cyfarwydd a chysurlon, lle maent yn teimlo eu bod yn cael gofal yn eu cartref eu hunain. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi adolygu a diweddaru ei bolisïau a'i weithdrefnau yn ôl yr angen. Mae'r gwasanaeth a gynigir yn un dwyieithog, sy'n golygu y gall y plant gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n galed i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr arferion gorau cyfredol ac mae gwelliannau sylweddol wedi'u rhoi ar waith ers yr arolygiad diwethaf. Er enghraifft, prynwyd teganau ac adnoddau newydd, sy'n cynnig profiadau chwarae a dysgu amrywiol i'r plant. Casglwyd safbwyntiau'r rhieni ac ymatebwyd iddynt. Er enghraifft, gofynnodd y rhieni i'r plant gael pryd o fwyd poeth cyn iddynt gael eu casglu ar ddiwedd y dydd, a gwnaeth y gwarchodwr plant addasu'r fwydlen yn unol â hynny. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei fod yn gwrando ar y plant hefyd, pan oeddent wedi gofyn a allent dreulio mwy o amser yn y tŷ haf a gafodd ei addasu'n ddiweddar.

Mae gan y cynorthwyydd gwarchod plant a benodwyd yn ddiweddar ffeil staff sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol. Roedd y cynorthwyydd gwarchod plant wedi cwblhau rhaglen sefydlu ar gyfer ei rôl newydd pan ddechreuodd ac roedd sesiynau goruchwylio wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd. Dangosodd y gwarchodwr plant sut y defnyddiwyd profiad blaenorol y ‘cynorthwywyr’ i ddylanwadu ar newidiadau o fewn ei wasanaeth. Roedd tystysgrifau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS) yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant wedi nodi yn y datganiad o ddiben pwy y byddai'n ei ddefnyddio fel unigolyn wrth gefn pe bai argyfwng. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn hwn wedi cael gwiriad DBS. Mae'r gwarchodwr plant yn mynychu rhywfaint o hyfforddiant, ac mae'n meddu ar y cymwysterau gofynnol i fodloni'r rheoliadau.

Mae'r adborth gan y rhieni yn gadarnhaol ac maent yn fodlon ar y gofal a roddir i'w plant. Maent yn hyderus bod eu plant yn hapus ac wedi setlo. Mae'r gwarchodwr plant yn casglu ac yn gollwng y plant i'r ysgolion lleol ac maent yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb yn y gymuned yn rheolaidd, ynghyd ag atyniadau lleol. Mae rhieni'n cael gwybodaeth fanwl drwy ddyddiaduron dyddiol. Yn ddiweddar, mae'r gwarchodwr plant wedi diweddaru fformat y dyddiaduron dyddiol, i'w alluogi i gofnodi'r hyn y mae'r rhieni am ei wybod am ddiwrnod eu plentyn.

## Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- diweddaru hyfforddiant diogelu
- yr unigolyn gofal plant wrth gefn mewn argyfwng i gael tystysgrif DBS gyfredol

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau, lle rhoddwyd cyfnod o rybudd byr i'r gwarchodwr plant gadarnhau ei fod ar gael. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 12 Chwefror 2020 rhwng 09:20 a 12:45.

Gwnaethom:

- arolygu amrywiaeth o ddogfennaeth, gan gynnwys asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau, cofrestri, a ffeiliau tri phlentyn
- arsylwi ar arferion a gwneud sylwadau er mwyn dangos tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 6. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Arwel Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **Hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **8:00 – 5:30pm**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **18 Awst 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg yn rhugl. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddogfennaeth ar gael yn y ddwy iaith. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/08/2020